



Mae ein bywyd gwyllt a'n cefn gwlad yn werthfawr. Mae angen i ni ofalu amdanynt nid er eu mwyn eu hunain yn unig, ond hefyd oherwydd eu bod yn darparu rhai o'r pethau hanfodol y mae arnom eu hangen. Ers cannoedd o flynyddoedd, mae pobl wedi defnyddio'r amgylchedd heb feddwl am effeithiau eu gweithredoedd.

Wrth i'r galw am adnoddau gynyddu, gyda mwy o ddiwydiant ac wrth i boblogaethau'r byd dyfu, mae systemau amgylcheddol mewn perygl. Mae bioamrywiaeth llawer o anifeiliaid a phlanhigion ar lefel gritigol o isel. Diweddarwyd Strategaeth Cadwraeth y Byd yn 1991, a rhoi iddi'r enw newydd 'Caring for the Earth: A Strategy for Sustainable Living.' Mae'n awgrymu canllawiau sy'n ceisio sicrhau cynaliadwyedd a chadw bioamrywiaeth.

Yn 2016 cyflwynodd Llywodraeth Cymru Gynllun Adfer Natur, gyda'r nod o ymdrin ag achosion gwaelodol bioamrywiaeth, trwy reoli'r hinsawdd, ynni, gwastraff, dŵr a thir mewn ffyrdd a fydd yn amddiffyn ein hamgylchedd naturiol. Mae angen y 'foronen' a'r 'ffon' arnom ni, ond mae angen hefyd ini ddweud wrth bobl pam mae'r pethau hyn yn bwysig, a sicrhau bod yr hyn rydym ni'n ei wneud yn gweithio. (Gweler Pam mae Angen Ystlumod ar Bobl ac Arolygon a Monitro.)



Polisi

Mae Llywodraethau a'u sefydliadau cadwraeth natur yn cyflwyno canllawiau i helpu pobl eraill sy'n gwneud penderfyniadau a allai effeithio ar fywyd gwyllt. Er enghraifft, yng Nghymru mae dogfen Polisi Cynllunio Cymru sy'n cael ei chefnogi gan Nodiadau Cyngor Technegol (TAN) arbennig ar gyfer cadwraeth natur. Mae PCC yn cyflwyno'r egwyddorion cyffredinol ac mae'r TANs yn cynnwys rhagor o fanylion.

O'u cyfuno maent yn dweud wrth awdurdodau cynllunio sut mae cymryd bywyd gwyllt i ystyriaeth wrth roi sylw i geisiadau am adeiladu tai a ffyrdd. (Gweler Ystlumod a'r Gyfraith.)

Cyllid

Mae angen i ni annog tirfeddianwyr i reoli cefn gwlad mewn ffordd wahanol. Mae tua 80% o Gymru'n dir ffermio, ac ers diwedd yr Ail Ryfel Byd mae arferion ffermio wedi cael effaith sylweddol ar ein hamgylchedd a'n tirlun. Polisiâu'r llywodraeth sydd wedi gwtio ffermwyr i gynhyrchu mwy o fwyd a sicrhau mwy o gynnyrch o dir ffermio. Trwy gynnig arian i ffermwyr i'w helpu i newid sut maen nhw'n ffermio (y foronen) mae modd creu lle i natur ffynnu yn ogystal â chynhyrchu bwyd.

Addysg

Mae astudio byd natur, bywyd gwyllt ac ecoleg yn rhan o addysg a chwricwlwm ysgolion. Mae'r sector gwirfoddol yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o addysgu'r cyhoedd ynghylch ystlumod a mathau eraill o fywyd gwyllt. Yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod yw'r prif gorff anllywodraethol sy'n ymdrin yn benodol â chadwraeth ystlumod a'r tirweddau y maent yn dibynnu arnynt, ac mae addysg yn rhan bwysig o'u gwaith. Gall hyn fod ar sawl ffurf, o gyhoeddiadau, gwybodaeth ar wefannau, a darparu teithiau cerdded a sgysiau cyhoeddus. Mae llawer o gyrff eraill yn gwneud y pethau hyn hefyd. Mae'r YCY yn cynnal gwasanaeth cymorth ar ffurf llinell ffôn, sy'n derbyn dros 15,000 o ymholiadau bob blwyddyn, o bob rhan o'r Deyrnas Unedig. Mae'n ateb cwestiynau ac yn darparu cyngor cyfeillgar ar unwaith. (www.bats.org.uk/pages/helpline.html)



© Shirley Thompson

Esboniwch ystyr:

Bioamrywiaeth

Cynaliadwyedd

Cymhelliant

Cyrff anllywodraethol – gan roi rhai enghreifftiau

Monitro

Mae dau brif reswm pam mae angen i ni fonitro ein bywyd gwyllt. Yn gyntaf, mae angen i'n llywodraeth gael gwybod a yw eu polisiâu'n gweithio, ac yn ail mae angen i ni gael gwybod sut ac ymhle mae ein bywyd gwyllt yn llwyddo, gan fod hynny'n arwydd o sut rydyn ni'n trin ein hamgylchedd. (Gweler Arolygon a Monitro.)



Defnyddio'r Gyfraith i reoleiddio

Cyn 1980 roedd mwyafrif ystlumod y Deyrnas Unedig yn cael eu hystyried yn blâu, a gallent gael eu clirio neu eu lladd yn gyfreithlon os oedden nhw'n cael eu hystyried yn niwsans. Fodd bynnag, wedi i'w niferoedd ddirywio'n aruthrol ar ôl Rhyfel Byd I, datblygodd y fath bryder yn eu cylch fel bod ystlumod wedi cael mwy o amddiffyniad nag unrhyw anifail arall pan basiwyd Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad yn 1981. Yn fwyaf arwyddocaol, nid yn unig mae'r ystlumod eu hunain yn cael eu hamddiffyn gan y gyfraith, oherwydd eu bod yn defnyddio ystod mor eang o safleoedd clwydo (*gweler Ystlumod ar hyd y flwyddyn*), mae'r safleoedd clwydo hynny hefyd yn cael eu hamddiffyn, hyd yn oed os nad yw'r ystlumod ynddynt.

Amddiffyn rhywogaethau

I grynhoi, mae'n dramgwydd droseddol cipio, lladd neu anafu ystlum, aflonyddu ar ystlum, niweidio neu ddinistrio safle clwydo ystlumod, a bod ag ystlum yn eich meddiant neu o dan eich rheolaeth, p'un a ydyw'n fyw neu'n farw. Mae rhai eithriadau neu amddiffyniadau i hyn, sy'n cynnwys meddu ar drwydded, ac os yw'r anifail yn sâl neu wedi'i anafu. Mae rhai o'r Rhywogaethau a Amddiffynnir yn Ewrop hefyd wedi'u rhestru yn y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad. Os adroddir am drosedd, mae cyfrifoldeb ar yr heddlu i ymchwilio, ac ar Wasanaeth Eryl yn Goron i erlyn.

Ni ellir cyflwyno trwyddedau ond os bodlonir meini prawf penodol:

- rhaid bod rheswm da am y gweithgaredd
- rhaid bod dim dewis amgen boddhaol
- rhaid i'r camau a ganiateir beidio â chael effaith niweidiol ar statws cadwraeth yr ystlumod.

Cafodd ystlumod eu hamddiffyn o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 o ganlyniad i **Gonfensiwn Bern ar Gadwraeth Bywyd Gwyllt a Chynefinoedd Naturiol Ewrop 1979**.

Yn 1992 cytunwyd ar **Gonfensiwn Amrywiaeth Biolegol y Cenhedloedd Unedig**. Llofnododd y Deyrnas Unedig, a hefyd yr Undeb Ewropeaidd, y Confensiwn hwnnw. Mater i'r Aelod-wladwriaethau yw sut maen nhw'n gweithredu ac yn cyflawni nodau'r Confensiwn. Cytunodd yr UE y byddai'n gwneud hynny trwy'r **Gyfarwydddeb Cynefinoedd**. Yn wreiddiol rhoddwyd y Gyfarwydddeb ar waith yn y Deyrnas Unedig trwy **Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 1994**, ond mae wedi cael ei newid sawl tro ers hynny.



Dinistriwyd safleoedd clwydo ystlumod bach ac ystlumod hirglust pan gafodd yr adeilad hwn ei ddymchwel heb ganiatâd. Bu'n rhaid i'r person cyfrifol dalu dirwy o £1500 fesul rhywogaeth, plws costau.